

P-06-1542 Ymrwymo i gefnogi dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain

Ymateb i'r Pwyllgor Deisebau yng ngoleuni llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch Deiseb P-06-1542:

"Ymrwymo i gefnogi dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain"

Rydym yn croesawu ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad sydd wedi digwydd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, Gweinidogion a chynrychiolwyr Ysgol Gymraeg Llundain dros y misoedd diwethaf.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r dyraniad cyllid a gytunwyd ym mis Mehefin i gefnogi'r ysgol hyd at ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025–26, ac rydym yn croesawu'r ffaith bod yr ysgol bellach wedi cael gwahoddiad i wneud cais am grant o hyd at dair blynedd, yn unol â phrosesau safonol Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd yn Rhagfyr. Mae hyn yn gam pwysig ymlaen ac yn mynd yn bell tuag at fynd i'r afael â'r pryderon uniongyrchol a godwyd yn y ddeiseb.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y llythyr o'r rôl ehangach y mae Ysgol Gymraeg Llundain yn ei chwarae wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain. Er bod nifer y disgyblion wedi gostwng i lefelau anarferol o isel yn y cyfnod yn dilyn pandemig COVID-19, rydym yn cael ein calonogi gan y ffaith bod y niferoedd bellach yn cynyddu ac fod momentwm clir tuag at adferiad. Rydym yn rhannu hyder Ysgrifennydd y Cabinet y gall yr ysgol, gyda pharhad mewn ymgysylltiad strategol a chefnogaeth, ailsefydlu ei hun fel canolfan ffyniannus ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac fel fflagl i'r diaspora Gymreig yn Llundain.

Fel y nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru, bydd sefydlogrwydd tymor hwy yn hollbwysig er mwyn galluogi'r ysgol i ailadeiladu hyder rhieni, cefnogi recriwtio disgyblion, cadw staff a chynnal cynllunio tymor hir effeithiol. Yn y cyd-destun hwn, bydd canlyniad y broses werthuso grant tair blynedd sydd ar y gorwel yn allweddol wrth benderfynu a ellir gwireddu'r amcanion a ddisgrifir yn llawn.

Wrth i'r trafodaethau barhau, byddem hefyd yn croesawu ystyriaeth yn y dyfodol ynghylch a oes cyfle i ddatblygu fframwaith strategol cliriach sy'n cydnabod rôl darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y tu allan i Gymru. Yn benodol, gallai hyn gynnwys myfyrio ar sut mae darpariaeth o'r fath yn cyd-fynd ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â throsglwyddo iaith, addysg a'r diaspora Gymreig, gan gynnwys - ond heb ei gyfyngu i - uchelgeisiau Cymraeg 2050. Credwn fod hwn yn faes a allai haeddu archwiliad pellach dros amser, yn hytrach na bod yn fater sy'n gofyn am benderfyniad ar unwaith.

Pe bai'n llwyddiannus, byddai'r grant aml-flwyddyn arfaethedig yn darparu sefydlogrwydd tymor canolig pwysig ac yn cryfhau'n sylweddol allu'r ysgol i gyflawni yn erbyn y nodau a amlinellir yn ymateb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, hyd nes y caiff canlyniad y broses honno ei gadarnhau, credwn y byddai'n briodol i'r Pwyllgor nodi bod y materion tymor hwy

a godwyd yn y ddeiseb yn parhau i fod yn ddibynnol ar y penderfyniad hwnnw, ac felly rydym yn croesawu diddordeb parhaus y Pwyllgor ar hyn o bryd.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ystyried y ddeiseb ac am y cyfle i gyflwyno'r sylwadau hyn.

Yn gywir,

Glenys Roberts

Cadeirydd Llywodraethwyr

Ysgol Gymraeg Llundain

[Er gwybodaeth, rydym wedi atodi dau ddogfen gefndir fer - crynodeb ymchwil sy'n amlinellu rôl Ysgol Gymraeg Llundain yn y gymuned Gymraeg yn Llundain, a diagram sy'n dangos safle yr ysgol o fewn ecosystem Gymraeg Llundain - pe bai hynny'n ddefnyddiol i'r pwyllgor]